

Adroddiad i'r: Cabinet

Dyddiad y Cyfarfod: 26 Mehefin 2018

Aelod / Swyddog Arweiniol: Y Cyng. Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Pennaeth Cyllid

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Prif Gyfrifydd

Teitl: Adroddiad Ariannol (Sefyllfa Ariannol Derfynol 2017/18)

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi bod yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd drwy'r flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Bydd drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2017/18 yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol erbyn 15 Mehefin. Yna bydd y cyfrifon archwiledig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi ar gyfer cymeradwyaeth ffurfiol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I roi gwybod am y sefyllfa refeniw derfynol a chymeradwyo'r dull arfaethedig o drin balansau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Argymhellir Aelodau'r Cabinet:

- i) I nodi'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2017/18
- ii) I gymeradwyo'r driniaeth arfaethedig o gronfeydd a balansau wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad ac yn Atodiadau 1, 2 a 3.
- iii) I nodi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd a nodwyd yn Atodiad 4.

4. Manylion yr Adroddiad

Manylir ar y ffigurau Alldro Refeniw yn Atodiad 1, ynghyd â'r driniaeth arfaethedig o falansau gwasanaeth diwedd blwyddyn. Mae'r sefyllfa derfynol gyda chyllidebau corfforaethol a gwasanaeth (gan gynnwys ysgolion) yn danwariant o £1.244m (0.7% o gyllideb refeniw net). Mae'r prif feysydd i'w nodi wedi'u cofnodi isod:

Ysgolion – Er ei fod yn parhau'n gyfnod ariannol anodd i ysgolion, mae buddsoddiad mewn cyllidebau ysgolion yn 2017/18 oedd yn fwy nac ariannu pwysau chwyddiant a'r berthynas waith agos rhwng y Cyngor ac ysgolion i gynhyrchu cynlluniau ariannol 3 blynedd cadarn, wedi arwain at sefyllfa ariannol gwell i ysgolion gydag ysgolion yn adrodd ar danwariant o fewn blwyddyn o £0.713m gan arwain at sefyllfa diffyg net llai o £0.343m (i lawr o £1.056m y llynedd). Mae ysgolion yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr Cyllid Addysg ar gynlluniau ariannol manwl ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd a thros y ddwy flynedd ganlynol i ddarparu cyllidebau cytbwys yn yr hirdymor. Ar hyn o bryd mae 21 ysgol gyda balansau diffygiol (26 y llynedd), ac mae

pob un sy'n parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr cyllid i ddatblygu cynllun gweithredu a gytunir. Mae pwysau chwyddiannol ar gyfer 2018/19 yn cael eu cynnwys yng nghyfanswm buddsoddiad o £1.8 miliwn, wedi'i gynnwys yn y gyllideb ddiweddar y cytunwyd arni gan y Cyngor, a gobeithir y bydd y sefyllfa ariannol ar gyfer y mwyafrif o ysgolion yn parhau i gael eu cyfuno yn ystod 2018/19. Mae balansau ysgolion unigol wedi'u nodi yn Atodiad 3.

Gwasanaethau Cymorth Cymunedol – er bod y gwasanaeth yn dangos ei fod yn adennill costau, mae hyn fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, yn dilyn cyllideb ychwanegol o £750k yn cael ei ddyrannu yn ystod proses gyllideb 17/18, £1miliwn o gyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru (sydd nawr yn cynnwys £367k o arian unwaith yn unig ar gyfer pwysau gofal dros y gaeaf), £165k incwm unwaith yn unig ychwanegol sy'n ymwneud ag incwm gohiriedig a £0.546miliwn o ddefnydd o gronfa wrth gefn gwasanaeth. Mae gorwariant o fewn y Gwasanaeth Gofal yn y Gymuned (yn cynnwys Cynlluniau Byw yn y Gymuned), Gwasanaeth Iechyd Meddwl a'r Gwasanaethau Darparu Mewnol yn fwy nag y rhagwelwyd ac yn parhau i fod yn achosi pryder ar gyfer 18/19 ac wedi hynny. Mae'r pwysau hyn wedi eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 18/19 a chytunwyd ar y pwysau ariannu gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hwn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Addysg a Gwasanaethau Plant – mae gan y gwasanaeth orwariant net o £460k (adroddwyd am £486k o orwariant ym mis Mawrth). Mae Gwasanaethau Plant yn parhau i fod yn faes risg uchel oherwydd natur gyfnewidiol niferoedd achosion a phwysau chwyddiannol ar gostau lleoliadau. Gall pob lleoliad unigol fod yn arbennig o ddrud ac felly gall unrhyw gynnydd mewn niferoedd gael effaith fawr ar y gyllideb. Cyfanswm y gorwariant yn erbyn cyllideb sylfaenol Gwasanaethau Plant yw £982k, fodd bynnag, fel yr adroddwyd mewn adroddiadau blaenorol, caiff hyn ei osod yn rhannol yn erbyn defnydd a gynlluniwyd o Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau a gafodd ei rhoi o'r neilltu o adnoddau Corfforaethol ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf (£522k). Mae'r pwysau yn y maes hwn wedi eu hystyried fel rhan o broses gyllidebol 18/19 a chytunwyd ar y pwysau ariannu gan y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae rhagor o waith ar y gweill i asesu goblygiadau ariannol y pwysau hwn ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Gwasanaethau Prifffyrdd a'r Amgylchedd gorwariant o £251k. Fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad Cyllid misol, mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant (£165,000) yn ymwneud â diffyg mewn incwm a ragwelir ar gyfer y Tîm Prosiectau Mawr. Mae'r prif reswm dros y diffyg incwm yn ymwneud â chyfanswm y gwaith ac ad-daliad gan Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Er bod pwysau o £0.300 miliwn wedi ei gynnwys yn y gyllideb ar gyfer Cludiant i'r Ysgol 2017/18, bydd angen monitro effaith gweithredu'r polisi newydd yn ofalus drwy gydol y flwyddyn. Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd Cludiant i'r Ysgol yn gorwario £75,000 yn dilyn adolygiad llawn o'r contractau y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd.

Gellir nawr cadarnhau bod effeithiau tywydd gaeafol hwyr ar gyllideb cynnal a chadw'r gaeaf wedi'i gynnwys o fewn adnoddau gwasanaeth presennol gan gynnwys defnyddio'r gronfa wrth gefn gaeaf caled (£127k) a dyraniad grant penodol o £100k gan Lywodraeth Cymru.

Cyllid, Asedau a Thai wedi tanwario £263 oherwydd incwm annisgwyl ôl-ddyddiedig yn ymwneud â mast ffôn symudol ar y Skytower yn y Rhyl, cyflawni ymrwymadau arbediad 2018/19 yn fuan a nifer o anfonebau o fewn yr eiddo yn llai nag y rhagwelwyd.

Roedd y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd yn dangos tanwariant o £33k oherwydd nifer o amrywiannau bach ac arbedion swyddi gwag ar draws y gwasanaeth.

Gwella Busnes a Moderneiddio tanwariant o £57k. Mae'r tanwariant yn arbedion swyddi a chyflawniad buan arbedion effeithlonrwydd

Mae Atodiad 4 yn rhoi manylion y trosglwyddiadau i ac o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd yn llawn. Mae'r rhan fwyaf o'r symudiadau wedi eu cyllidebu ar gyfer neu wedi cael eu cymeradwyo mewn adroddiadau monitro blaenorol i'r cabinet, fodd bynnag, dylai'r trafodion ar ddiwedd y flwyddyn canlynol gael eu nodi ac maent yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo:

- Mae'r cronfeydd wrth gefn canlynol wedi eu sefydlu o fewn y Gwasanaetha Cymorth Cymunedol:
 - Gofal Cymdeithasol mewn Partneriaeth
 - Asiantaeth Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol
 - Uned Fusnes Diogelu
 - Cyflawni Trawsnewid
 - Tîm Comisiynu Rhanbarthol

Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn yn ymwneud â chyllidebau cyfun gyda Sir Ddinbych y corff atebol. Mae'r balansau yn cynnwys yr holl gronfeydd a gynhelir i bob sefydliad sy'n aelod (6 Awdurdod Lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr).

Mae'r sefyllfa ar y cynnyrch o Dreth y Cyngor yn cael ei heffeithio gan nifer yr anheddau yn y Sir a'r gyfradd gasglu. Mae'r cyngor wedi cynnal lefel gymharol uchel o gasglu treth o 97.7% (97.7% y llynedd). Fodd bynnag, roedd darpariaethau dyled ddrwg ar ddiwedd y flwyddyn wedi arwain at fwy o gostau gan y cyfrif a gwnaed y penderfyniad i beidio dod â'r £0.500m o gyfraniad cyllidebol i lawr o'r balansau. Bydd y £0.500m yn parhau mewn balansau cyffredinol ac ar gael ar gyfer lliniaru cyllideb, fel y cymeradwywyd yn wreiddiol gan y Cyngor, mewn blynyddoedd i ddod. O ganlyniad, y sefyllfa arian net terfynol yw £124k yn is na'r gwreiddiol. Mae'r diffyg hwn wedi'i ddiwallu gan y tanwariant o fewn y dyraniadau cyllideb refeniw Corfforaethol fel yr adroddwyd mewn misoedd blaenorol.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn gwasanaethau ac argaeledd cyllid corfforaethol, cynigir bod y gwasanaethau yn dwyn ymlaen y tanwariant net a restrir fel Balansau Gwasanaeth Ymrwymedig yn Atodiad 1 er mwyn helpu i gyflawni'r strategaeth cyllideb 2018/19 a bodloni ymrwymadau sy'n bodoli eisoes. Mewn cynigion adroddiadau blaenorol ar gyfer defnydd o danwariant gwasanaeth wedi'u cynnwys yn ffigyrau terfynol i ddod yn £143k, mae cynigion ychwanegol £263k wedi'u cyflwyno ac angen cymeradwyaeth ffurfiol. Mae **Atodiad 2** yn crynhoi'r cynigion gwasanaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y Cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Roedd cyllideb refeniw net y Cyngor ar gyfer 2017/18 yn £189m. Roedd y sefyllfa derfynol ar gyllidebau corfforaethol a gwasanaeth yn orwariant net o £1.244m (0.7% o gyllideb net). Gan ystyried cyllid, roedd yr amrywiant ar gyfanswm y gyllideb yn £1.119m. Lle mae gwasanaethau wedi tynnu sylw at ymrwymadau gwariant dilys yn erbyn balansau 2017/18, cynigir bod y gwasanaethau hynny yn trosglwyddo'r balans net ymlaen i 2018/19. Bydd y sefyllfa o fewn pob gwasanaeth a'r defnydd a fwriedir o falansau gwasanaeth a ddygwyd ymlaen yn cael ei adolygu yn ystod 2018/19.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Cynhaliwyd Asesiad Lles ar elfen arbedion effeithlonrwydd cynigion y gyllideb a chyflwynwyd yr asesiad i'r Cyngor ar 31 Ionawr. Daeth yr asesiad i'r casgliad bod y cynigion effeithlonrwydd naill ai'n gadarnhaol neu'n niwtral o'u hasesu yn erbyn y saith nod lles.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgor Craffu ac eraill?

Yn ogystal â'r adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi ei hystyried gan gyfarfodydd y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Briffio'r Cabinet a Briffio'r Cyngor. Cynhaliwyd gweithdai cyllideb rheolaidd gydag aelodau etholedig i archwilio cyllidebau gwasanaeth ac ystyried y cynigion o ran y gyllideb. Hysbyswyd yr holl aelodau o staff am y broses o osod y gyllideb ac ymgynghorwyd yn llawn â staff sy'n cael eu heffeithio neu bwriedir gwneud hynny, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur drwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Mae cofnod y Cyngor o gyflawni wrth nodi a chyflawni arbedion tra'n rheoli cronfeydd wrth gefn effeithiol yn cryfhau'r hyder y bydd y cyngor yn parhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol wrth ddarparu buddsoddiad yn y Cynllun Corfforaethol yn ystod yr hinsawdd ariannu anodd a ragwelir yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Er bod y sefyllfa derfynol yn dangos tanwariant bach ar draws gwasanaethau ac ysgolion, mae hyn yn cynnwys y defnydd o nifer o gronfeydd wrth gefn penodol fel y nodwyd o fewn yr adroddiad.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni'r strategaeth gyllideb y cytunwyd arni yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau nawr ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.